**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU**
**2 TACHWEDD 2017**

Cofnodion cyfarfod Is-Bwyllgor Trwyddedu Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug ddydd Iau 2 Tachwedd 2018.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Tony Sharps (Cadeirydd)**
Cynghorwyr: Adele Davies-Cooke a Mike Reece

**SWYDDOGION CYNGOR SIR Y FFLINT**
Cyfreithiwr (Mr Tim Dillon), Arweinydd Tîm Trwyddedu (Gemma Potter) ac Arweinydd Tîm – Gwasanaethau Democrataidd (Nicola Gittins)

**YMDDIHEURIADAU**
Dim.

Ymgeisydd a ffrind.

1. **DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)**

   Dim.

2. **DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD I WYBODAETH) 1985 - YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

   **PENDERFYNWYD:**

   Y dylid gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol gan eu bod yn cael eu hystyried i fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig yn rhinwedd paragraffau 12 a 13 Rhan 4 o Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

   **GWRANDAWIAD A PHENDERFYNU AR Y CAIS**

   Croesawodd y Cadeirydd yr ymgeisydd a'i gynrychiolydd. Cyflwynodd aelodau'r panel ac eglurodd y weithdrefn ar gyfer y gwrandawiad, gan gynnwys sut y byddai'r cais yn cael ei benderfynu.

3. **CAIS AM DRWYDDED GYRRWR CERBYD HURIO PREIFAT/ CERBYD HACNI (AR Y CYD)**

   Cyflwynodd Arweinydd y Tîm Trwyddedu yr adroddiad i ystyried cais am Drwydded Gyrrwr Cerbyd Hurio Preifat / Cerbyd Hacni (ar y Cyd).

   Gwahoddodd y Cadeirydd yr ymgeisydd i gyflwyno sylwadau a rhoi esboniad llawn o'i gollfarnau blaenorol a fanylwyd ar ddatgeliad cofnodion troseddol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

   Rhoddodd yr ymgeisydd fanylion am y cefndir a arweiniodd at y troseddau a oedd wedi digwydd fel yr amlinellwyd yn y DBS, ac yr oedd yn edifar ganddo. Cadarnhaodd ei fod wedi mynychu cwrs perthnasol ar gyfer ei drosedd DR10 a oedd wedi lleihau ei waharddiad gyrru 18 mis cychwynnol.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y panel, rhoddodd yr ymgeisydd eglurhad ar wahanol agweddau o'i gollfarnau gan gynnwys manylion am ei fywyd personol, a oedd yn cynnwys pa mor aml yr oedd yn gofalu am ei blentyn yn wythnosol. Ymddiheurodd yn ddiffuant am y camgymeriadau anghyfrifol a'r penderfyniadau anghywir a wnaethpwyd ar y ddau achlysur. Wrth ymateb i gwestiynau pellach dywedodd ei fod yn ystyried ei fod yn berson addas a phriodol.

Gofynnodd y Cyfreithiwr gwestiynau pellach mewn perthynas â'r digwyddiadau a amlinellir yn y datgeliad DBS, gan gynnwys pam mai rhybudd yn unig a gafodd am y drosedd o fod â chyffuriau yn ei feddiant. Esboniodd yr ymgeisydd bod hynny am nad oedd wedi bod mewn trafferth o'r blaen. Cadarnhaodd nad oedd ganddo unrhyw broblemau ag alcohol na chyffuriau.

I gloi, ychwanegodd yr ymgeisydd, ers y digwyddiad diwethaf, ei fod wedi troi ei fywyd o gwmpas er ei les ei hun a'i blentyn a'i fod wedi cael cynnig swydd lawn amser gyda chwmni tacsis a fyddai'n rhoi cyfle gwych iddo wneud gwell bywyd ar eu cyfer.

Darllenodd Arweinydd y Tîm Trwyddedu ddau eirda personol a dderbyniwyd am yr ymgeisydd.

Pan oedd y Cadeirydd yn fodlon bod yr holl gwestiynau perthnasol wedi'u codi, gofynnodd i'r ymgeisydd, ei gynrychiolydd a'r Arweinydd Tîm Trwyddedu adael y cyfarfod tra bod y panel yn dod i benderfyniad.

**3.1 Penderfynu ar y Cais**

Wrth benderfynu ar y cais, ystyriodd y panel ganllaw'r Cyngor ar drin euogfarnau a oedd ynghlwm wrth yr adroddiad. Ystyriodd y panel yr amgylchiadau cysylltiedig ym mhob achos a theimlai fod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal Trwydded Gyrrwr Cerbyd Hurio Preifat/ Cerbyd Hacni (ar y Cyd).

Gwahoddwyd Arweinydd y Tîm Trwyddedu a'r ymgeisydd i ddychwelyd fel y gellid ailgychwyn y cyfarfod.

**3.2 Penderfyniad**

Dywedodd y Cadeirydd fod y panel wedi ystyried y sylwadau a wnaed gan yr holl bartïon a chytunodd i ganiatáu'r cais.

**<u>PENDERFYNWYD</u>:**

Bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal Trwydded Gyrrwr Cerbyd Hurio Preifat / Cerbyd Hacni o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 a bod y Drwydded yn cael ei chaniatáu.

(Dechreuodd y cyfarfod am 11.00 yb a daeth i ben am 11.57 yb)

..................................................

**Cadeirydd**